

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
6 Chwefror 2023 yn Ffestri Capel Gwynfil, Llangeitho am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
6 February 2023 at Chapel Festry Gwynfil, Llangeitho at 8.00pm

Presennol/Present

Cyng/Cllr Myrddin James (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Emyr Jones, Sarah Evans, Rhian Turner, Paul Rooke, Gwilym Evans, Beryl Evans, Gerwyn Ebenezer, Dafydd Morse, Daniel Thomas & Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Neb / No one

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Yn absenoldeb yr heddlu, derbyniwyd a cylchredwyd adroddiad drwy e-bost gan nodi nad oedd unrhyw beth yw adrodd ers y cyfarfod diwethaf.

In the absence of the PSCO a written report had been received and circulated by email with no matters to report.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.

The minutes for the December meeting were agreed as being correct by Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Emyr Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Perchennog yr Hungry Ram yn disgwyl trydanwr i gysylltu'r peiriant diffib.
Hungry Ram owner waiting for electrician to connect the defib.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol.
BARCUD are continuing their investigation into additional parking at Bro Gwynfil.
- Y trefniadau newydd o gasglu'r plant o cysgodfan Bro Gwynfil yn lle'r cylchfan yn gweithio'n foddhaol iawn a chytunwyd bod y trefniant o welliant mawr.
New arrangements for picking up pupils at Bro Gwynfil bus shelter rather than on the square working well and it was agreed that this was an improvement.
- Cyngor Sir Ceredigion wedi bod allan yn y ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsern mawr, ymchwiliad yn parhau.
Cyngor Sir Ceredigion had visited the two sites of concern in Penuwch, investigations continue.
- Soniwyd bod Cyng Gerwyn Ebenezer yn digon bodlon torri'r borfa oddi amgylch cerfluniau Gelli Angharad yn ôl yr angen, ond soniwyd, oherwydd amser y flwyddyn, nad oedd yna ddim i'w dorri ar hyn o bryd.
Cllr Gerwyn Ebenezer said that he would be happy to cut the grass around the monuments as required at Gelli Angharad, but no work was needed at the present due to the time of year.
- Angen y swiper yn y gymuned.
Sweeper visit required
- Cais wedi'i gyflwyno ar gyfer £5,500 praesept 2023-24
Precept for 2023-24 had been presented to the Council.
- Cais wedi'u wneud am £41.67 ychwanegol tuag at pris y bocs diffib yn Stags Head, cynnydd mewn pris oherwydd golau tu fewn y bocs, cytunwyd i'w dalu.
Clerk requested an addition £41.67 toward the cost of the defib box at Stags Head, increase in price due to the light in the box, it was agreed to pay this amount.
- Bocsys grit/halen yn y gymuned wedi'u llenwi, heblaw am un ar bwys Llyn Fanod.
Grit/Salt boxes with the community had been re-filled, except for the one near Llyn Fanod.
- Y Bocs grit/halen newydd oedd i'w leoli ar y ffordd i Llyn Fanod heb gyrraedd hyd yma.
The Grit/Salt box allocated for the road near Llyn Fanod had not yet been installed.

Llyn Fanod

Clerc wedi derbyn anfoneb eitemedig o'r gwaith a wnaed hyd at Mehefin 2022 am £815.00 (gan gynnwys TAW). Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a cwmni Edward Harris unwaith yn ragor i ofyn beth yw'r sefyllfa efo'r cyfarfod sydd i'w drefnu rhwng y Prifysgol a'r cyfreithiwr ac i dderbyn cadarnhad mai Prifysgol Aberystwyth maent mewn cysylltiad efo.

The Clerk had received an itemised invoice for the work carried out up until June 2022 for £815 (incl VAT). The Clerk as was asked to contact Edward Harris once more asking for an update on the meeting arranged between the University and solicitor and to receive confirmation, they are in contact with Aberystwyth University.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Rhagfyr & Ionawr £117.25 x 2 = £234.50 = Clerk Salary – December & January
- Edward Harris, Cyfreithwyr £815.00 Edward Harris, Solicitor
- Cadarnhad wedi'u dderbyn bod costau'r etholiad 2022 o £170 yn cael ei dynnu o'r presept cyn cyrraedd cyfrif banc y Cyngor Cymuned
Confirmation received that 2022 election costs of £170 would be deducted from the precept requested.
- £41.67 cost ychwanegol tuag at bocs peiriant diffib i Stags Head
£41.67 additional costs for the defib box at Stags Head.
- Balans y banc ar 06.02.2023 £10,730.87 - Bank Balance on 06.02.2023 £10,730.87.

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Beryl Evans; Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Sarah Evans

Gohebiaeth/Correspondence

- Cais am gymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth CFFI Ceredigion YFC, dim gweithrediad
Application from Ceredigion YFC for financial support, no action
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Cyng Gwenfair Owen am sefyllfa'r graenu yn ystod y gaeaf ynghyd ac angen gwybod beth yw'r polisi gan Cyngor Sir Ceredigion. Soniwyd hefyd am trefnidiaeth bysiau 585 wedi gael ei gohirio yn llwyr am wythnos gyfan yn ddiweddar oherwydd y diffyg graenu'r llwybrau bysiau, angen eglurhad o'r Cyngor Sir Ceredigion am hyn. Clerc i anfon y gofidiau yma ymlaen i Cyngor Sir Ceredigion.
Email received from Cllr Gwenfair Owen regarding the gritting situation over the winter and enquiring about Cyngor Sir Ceredigion's policy on this. It was also noted that the 585-bus route was cancelled totally for one week due to insufficient gritting on bus routes, explanation required from Cyngor Sir Ceredigion. Clerk to forward concerns to Cyngor Sir Ceredigion.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ymgeisydd: Janet Exelby

Safle: Pantyresgaer, Penuwch, Tregaron, SY25 6RA

Y Bwriad: Installation of a ground mounted solar pv system with battery storage in a shed built for this purpose.

Cynnig/Proposer: Cyng Gwilym Evans; Eiliwyd/Seconder: Cyng Sarah Evans

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Gwahoddiad wedi'u dderbyn i fynychu Garddwest ym Mhalas Buckingham ar ddydd Mercher 3ydd Mai a dydd Mawrth 9fed o Fai i ddathlu'r Coroni, dim gweithrediad.

Invitation received to a Garden Party at Buckingham Palace to celebrate the Coronation on Wednesday 3rd of May or Tuesday 9th of May, no action.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Gofyn i gwmi Elliott Conservation am ei gyngor am gyflwr y milwr ar y cylchfan, aros iddo nawr i ymweld a rhoi adroddiad i ni.
Contact Elliott Conservation for their advice on the condition of the soldier on the war memorial, awaiting a visit and report.
- Clerc wedi cysylltu efo 8 cwmni am ei barn ar gyflwr y goeden ywen, nifer ohonynt yn gweld fod y goeden wedi bod yn gwaethygu ers nifer o flynddoedd bellach ond yn meddwl bod angen bwydo'r maetholion cywir. Cynnigwyd bod y clerch yn gofyn iddynt am brisiau i ddod allan i arolygu'r goeden a rhoi adroddiad ysgrifenedig ar eu canfyddiadau, a bryd gellir gwneud y gwaith.
The Clerk had contacted 8 companies for their advice on the condition of the yew tree on Llangeitho square. Many have noticed a decline in its condition over recent years and questioning if it needed appropriate feeding. It was proposed that the Clerk ask for costs for inspection visit and written report on their findings, and when any work needed could be carried out.
- Soniwyd bod Capel Llwynpiod yn cau a ni fydd modd i'r Cyngor Cymuned gynnal cyfarfodydd yno bellach. Trafodwyd o oedd yna leoliad pwrpasol arall i'w defnyddio.
It was noted that Capel Llwynpiod would be closing and not available to hold meetings in the future. There was a discussion on other available locations.

- Soniwyd bod gratin ar y ffordd rhwng Bryncethin lawr am Maesrhug wedi blocio ac angen ei lanhau
It was noted that the drain on the road between Bryncethin to Maesrhug was blocked and needed to be emptied.
- Dangoswyd siom nad oedd y sbwriel, bagiau du, wedi cael ei casglu i bron naw wythnos mewn rhai llefydd.
It was disappointing to note that some areas had not had their refuse, black bin bags collected for nine weeks.
- Twll yn y ffordd ar waelod y ffordd Aeron View, Llangeitho draw am Busnes Bysiau Brodyr James.
Pothole in the road in front of Aeron View, Llangeitho towards James Brothers Buses.
- Y ffordd dros ben bont Afon Aeron am Dolaeron yn mynd mewn cyflwr gwael.
The road surface on the bridge over the river Aeron near Dolaeron in a bad condition.
- Twll yn y ffordd ar bwys Derlwyn Fawr, Stags Head angen sylw.
Pothole in the road near Derlwyn Fawr, Stags Head.
- Gofynwyd a fyddai modd i'r Cyngor Sir anfon adroddiad nol i'r Cyngor Cymuned am ganfyddiadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned.
The Clerk was asked to request a report from the County Council regarding its findings on temporary speed cables set on roads in the community recently.
- Soniwyd bod y bocs blodau o dan arwydd Llangeitho is law na Garth, Llangeitho wedi diflannu.
It was noted that a flower box under the Llangeitho sign by Garth, Llangeitho had vanished.
- Drain wedi blocio ar rhiw Cefnbanadl ac ar bwys Trecoll a lawr rhiw Gaerlwyd, angen glanhau'r drain.
Drains on Cefnbanadl hill, near Trecoll and on the hill down from Gaerlwyd were blocked and need emptying.
- Gofynwyd a fyddai modd cael bocs grit/halen ar bwys Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho.
It was requested that a grit/salt box be located by Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho.
- Derbyniwyd cwyn fod nifer o ymwelwyr â Bro Aeron (Gwernllwyn Gynt) yn parcio ar ben y palmant, sy'n achosi i drigolion y pentref orfod cerdded ar y ffordd fawr i fynd oddi amgylch y pentre. Y clerch i ysgrifennu at berchnogion y ty.
A complaint was received that many of the visitors to Bro Aeron (formerly Gwernllwyn) parked on the pavement in front of the house necessitating pedestrians to walk on the road in front of the house. The clerk to write to the owners of the house.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwibili, Llangeitho ar nos Lun 6ed o Fawrth 2023 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Llangeitho Jubilee Hall Monday 6th March 2023 at 8pm.